
Rhifyn Chwefror heb y clawr.qxp_Layout 1 16/01/2020 13:26 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 41. RHIF 9 CHWEFROR 2020 50c

# Cyflwyno'r Gyfrol Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl





## Y Lansio ar 26-11-2019 yng nghwmni Heno (S4C) a Chefnogwyr (gweler y stori ar dudalen 5)



*Llywyddion a chriw camera Tinopolis*



*Holi Dr. Arthur Thomas*



*Gerallt Pennant a'r awdur*



*Norma ar ran Cymry Lerpwl*



*Sara Fielding yn cyfarch*

*(Lluniau Dr. John G. Williams)*



*Marged Tudur o'r Lolfa*



*Cantorion Bethel*

Rhifyn Chwefror heb y clawr.qxp_Layout 1 16/01/2020 13:26 Page 2

Golygyddol

# *Byd Di-Ryfel?* gan D. Ben Rees

Ar ddiwedd degawd waedlyd mae unrhyw berson cymedrol yn hiraethu am ddyddiau lle na chlywir am dreiswyr a digofaint. Byd a fydd yn cyd-fyw yn hytrach na chasau yn ddi-ddiwedd. Teimlaf fel y bardd Waldo pan sylwaf ar faes y gad yn Syria neu Somalia, ‘ein bod ni ’run fath â byd natur i gyd, ’run fath ag anifeiliaid a phob ffurf, yn byw trwy ladd a thraflyncu rhyw hiliogaeth arall’?

Dyna’r siom a gaf wrth wylio *Planet Earth* a rhaglenni tebyg o gyflwyniad David Attenborough fod y rhelyw mawr o fwystfilod y maes – fel y blaidd, y llew a’r neidr – yn barod i’n lladd ni sydd yn byw ar yr un blaned â hwy, ac yn sicr yn bodoli bellach er mwyn lladd anifeiliaid o’r un hiliogaeth.

Dyna a wnawn ninnau o ddydd i ddydd, lladd ei hiliogaeth ei hun, lladd Iddew er mwyn bodloni rhagfarn a chasineb y Crisiton honedig. Nid rhyfedd fod y byd yn y cyflwr y mae gan nad oes gennym yn ein cyfansoddiad, heb i ni ddod o dan ddylanwad efengyl Crist, ronyn o barch i’r gymuned fyw, ddaearol. Pridd y ddaear a dŵr yr afon yn cael ei wenwyno gan amaethwyr sydd yn rhy amharchus i barchu’r amgylchedd!

Yn wir ers dyfodiad ‘y pechod gwreiddiol’ ni fu’r byd yn ddiogel i neb ohonom. Soniwn gymaint fyth ag y medrwn am efengyl tangnefedd a brawdoliaeth dynion a merched. Ond yr hyn sydd yn wir ydyw mai gelyniaeth rhwng dynion ac anifeiliaid a’i gilydd sydd yn y darlun a welaf trwy ffenestri fy nghartref. Beth a gawn yn Llyfr Genesis ond stori y lladd. Brawd-leiddiad oedd Cain yn falch o lofruddio Abel. Ar ôl hynny cawn y gwrthdaro rhwng Abram a Lot a gelyniaeth ffiaidd rhwng Joseff a’i frodyr.

Cain oedd y dyn a lafuria’r ddaear tra yr oedd Abel fel Alun Mabon yn cerdded y mynyddoedd i fugeilio’r defaid. Mae Cain yn gofalu y caiff pobl pob oes wybod amdano. Aeth ati i felltithio’r ddaear drwy ei llychwinio â gwaed Abel. Mae gwaed Abel yn dal i lefaru ar Dduw o hofelau Kabul ac Aleppo: “llef gwaed dy frawd sydd yn gweiddi arnaf fi o’r ddaear” (Genesis 4:10). Ac fel y dywed awdur (un o’r pump a fu wrthi) Llyfr Genesis; mae’r ddaear yn melltithio pob treisiwr sydd yn lladd a phob creadur byw sy’n tagu ei frawd.

Ac yr awr hon melltigedig wyt ti o’r ddaear yr hwn a agorodd ei safn i dderbyn gwaed dy frawd o’th law di (Genesis 3:11). Yn wir caf yr argraff yn Genesis fod y ddaear yn gwawdio dilynwyr Tywysog Tangnefedd. Ac mae gan y ddaear reswm am y safiad hwnnw na all rai ohonom ei ddeall. Nid syniadaeth sosialwyr Cirstnogol sydd yn nechrau Genesis ond syniadaeth y treisiwr a gafodd ei lwyr ddylanwadu gan rym y cledd. Lloriwyd y bugail, lladdwyd ei egni a chladdwyd ei ffon a’i sgrepan. Gweithred giaidd oedd y gweithredoedd a welwyd ar hyd a lled dinas Llundain gyda phlant tair ar ddeg oed yn trywanu plentyn arall gyda chyllell er mwyn difa ei einioes. Credaf fod rhyfeloedd yr ugeinfed ganrif a’r ugain mlynedd diwethaf wedi ein melltithio fel dynoliaeth, fel bod etholwyr Prydain yn dal i gredu y dylid gor-wario ar Trident ac arfau dinistriol er mwyn bygwth Rwsia a Seina a phob gelyn arall sydd ar orwel y blaned. Dyma’r bobl gall a wawdiodd yr heddgarwr Jeremy Corbyn am iddo gredu nad oedd angen Trident i amddiffyn democratiaeth yn erbyn unbennaeth Vladimir Putin a thotalitariaeth Seina ers dyddiau Mao.

Mewn llythyr i bapur Sir Benfro *Western Telegraph* yn 1941 dywedodd Waldo Williams amdano’i hun fel heddychwr:

“He is a democraft because he sees the supreme value of every human life, whatever its status, and he is a pacifist for the same reason”.

Tybed a oes gobaith gwireddu hyn yn y ddegawd nesaf?


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors
Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o’r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

Rhifyn Chwefror heb y clawr.qxp_Layout 1 16/01/2020 13:26 Page 3

*Teyrnged i'r ddiweddar*

# Morfydd Williams, Penbedw

***gan y Parchedig Robert Parry, Cynorthwy-ydd Bugeiliol Glannau Mersi ar ddydd ei hangladd yng Nghapel Cefn Meiriadog, Llanelwy ar Dachwedd 14eg, 2019.***

Fel gweinidog iddi ond bwysicach, fel aelod o'r teulu, mae hi'n fraint aruthrol gael codi o'ch blaen a thalu teyrnged i un o anwyliaid daear. Tra bod 'na sawl gair y medr rhywun fod yn eu defnyddio i ddisgrifio'r ddiweddar Morfydd Williams, yn bersonol, mae 'na DRI yn dod i fy meddwl ar ddiwrnod fel hwn, sef HAWDDGARWCH, CYMWYNASGARWCH A THEYRNGARWCH.

Yn gyntaf, HAWDDGARWCH. Gwraig oedd Morfydd oedd yn un hawdd ei charu. A dyna ystyr hawddgar yn y bôn: bod yn hawdd eich caru a'ch hoffi. 'Doedd dim eisiau ichi drio'n rhy galed i gymryd at y wraig fonheddig yma, oblegid mi roedd 'na ryw onestrwydd a rhyw ddiffuantrwydd yn pefrio drwy ei phersonoliaeth hi. Yr ieuengaf o efeilliaid, a braidd fel yn hanes Martha a Mair y Testament Newydd, 'allai Morfydd nac Eirlys ddim fod wedi bod yn fwy gwahanol i'w gilydd 'taen nhw'n trio. Dyna'r lle y byddai Eirlys yn ymbincio, gan edrych yn drwsiadus a del, tra y byddai Morfydd wedyn yn teimlo'n hollol gartrefol mewn hen gôt ag yr oedd hi wedi'i chipio ym marchnad Penbedw am £5!

Cafodd ei geni yn Llanelwy a'i magu yn Llwyn Penwyn, sef cartref ei mam yng Nghefn Meiriadog. Roedd blynyddoedd ei mebyd yn rhai dedwydd iawn, heblaw am y ffaith fod ganddi nam ar ei throed; ond 'rwystrodd hynny ddim arni, 'chlywech chi fyth mohoni yn cwyno ac yn wir fe gyflawnodd wyrthiau o ystyried popeth, gan gynnwys cerdded milltiroedd o gwmpas maes y Brifwyl a chadw cwmpeini selogion Cymdeithas Edward Llwyd. Yng nghysgod hynny, mae dyn yn cofio'r dyfyniad hwnnw ag y byddai'r annwyl Barchedig Elwyn Hughes, Wrecsam yn ei ddweud ar lafar, *"It's nice to be important, but it's important to be nice."* Yn sicr, mi roedd Morfydd yn un o'r bobl hynny ag yr oedd rhywun yn cymryd ati'n syth: 'doedd 'na ddim ffwdan na sylw yn bod yn ei chylch chi. Yr hyn gaech chi fyddai Morfydd ei hun; ac am gynhesrwydd ei phersonoliaeth, a llawer, llawer mwy, mi rydan ni'n rhoi diolch heddiw.

Yr ail air y byddwn i'n ei ddewis wrth feddwl am Morfydd fyddai'r gair CYMWYNASGARWCH. Tra bod yr elfen o Fair ynddi, yr un ddefosiynol, ddwys oedd yn barod i eistedd i lawr a gwrando ar yr Arglwydd Iesu, mi roedd 'na ochr ymarferol a phrysur ym Morfydd. A defnyddio's stori honno yn Efengyl Luc, mi roedd hi'n Fartha yn ogystal â bod yn Fair, ac mi roedd hi'n gwybod sut i fwydo gweinidogion, fel y ces innau a llawer i bregethwr arall brofi! Roedd 'na rywbeth yn ymarferol ym Morfydd, ac roedd hi'n gwybod beth oedd diwrnod o waith caled ar y ffarm ym Marli pan roedd y tasgau ag yr ydan ninnau'n eu cymryd mor ganiataol gymaint â hynny'n anoddach i'w cyflawni. Wedi iddi dderbyn ei haddysg yn ysgol yr eglwys lleol ac yn Abergele, fe benderfynodd ar yrfa ym myd nyrsio, lle y daeth ei dawn i wasanaethu i'r brig. Erbyn hynny, mi roedd ei rheini wedi symud cartref i Marllwyn, ac oddi yno, fe ddechreuodd ar ei hyfforddiant yn hen ysbyty H. M. Stanley, Llanelwy cyn mynd ymlaen i Ysbyty Gyffredinol Penbedw lle y daeth maes o law yn sister ar y ward Orthopaedig. Afraid dweud ei bod hi'n hoffus iawn gan y staff a'r cleifion fel ei gilydd, ac roedd hi'n cael blas anghyffredin ar y gwaith, gan gymryd y cyfle lleiaf i ddangos caredigrwydd i bawb. Ac mi roedd hi wrth ei bodd yng nghanol y llu llawfeddygon o Gymry oedd i'w cael bryd hynny, ac yn eu plith nhw y diweddar Ddoctor Howell Pritchard Jones, Wrecsam gynt. A dw i'n sicr bod y Cymry fyddai'n dod fel cleifion, nhwthe hefyd yn well eu byd o achos cymwynasgarwch y ferch hynaws o Ddyffryn Clwyd.

Un peth arall. TEYRNGARWCH. Gwraig oedd Morfydd oedd yn fythol deyrngar i bawb a phopeth. Mi roedd hi'n ffyddlon i ddechrau i'w theulu, gan ffonio'i brawd Meurig bob Nos Sul; ac os oedd 'na angladd yn digwydd yn rhywle, Morfydd fydde'r gyntaf i dalu'r gymwynas olaf i hen ffrind neu i berthynas o'r teulu. Fe wyddoch chi i gyd iddi fod yn eithriadol ei gofal i'w phriod, John Trefor Williams pan roedd o'n fyw, gan ofalu am ei holl reidiau yn cynnwys rhuthro i ddal y post er mwyn i'w lythyrau fo allu cyrraedd swyddfeydd y *Daily Post* erbyn y diwrnod wedyn; ond mi fu Morfydd hefyd yn deyrngar i'r gwerthoedd gorau. Fel cannoedd o Gymry ei chyfnod, fe fentrodd hi dros y ffin i ennill ei thamaid. Ond yn wahanol i lawer o'i chyd-Gymry, fe wnaeth yn siŵr ei bod hi'n cymryd ei Duw efo hi i Lannau Merswy. 'Doedd hi ddim yn ddigon ganddi gael mynychu'r capel yn y Cefn na'r un yn y Bontnewydd lle roedd Miss Thomas yn dysgu'r hen ffefrynnau i'r plant o gylch clamp o stôf fawr na chwaith yr Eglwys lle roedd ei thaid, Thomas Williams yn canu'r clychau: roedd Duw iddi hi, fel gyda Ruth yr Hen Destament yn Dduw iddi *hithau'n* bersonol, ac yn sail ei gobeithion i gyd yn Iesu Grist; ac mi roedd cael addoli yn ei mamiaith yn yr hen Salem, Penbedw ac yna yn Seion yn golygu popeth iddi, heb sôn am gael ei hethol yn flaenor. Yn wahanol i gymaint o'n cyd-Gymry, mi fyddai'n rhaid fod ganddi reswm arbennig os nad oedd hi yn y moddion. Dyma inni esiampl ardderchog o rywun y gallech chi fod yn dibynnu arnyn nhw, ac mae hynny'n cyfrif llawer mewn oes ddi-hid fel hon.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i brawd, Meurig ac â disgynyddion teulu ei ddiweddar chwaer, Eirlys. Heddwch i'w llwch.

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Mawrth 2020** erbyn bore Sadwrn, 1 Chwefror, 2020 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i benatgarthdrive@talktalk.net
- **Rhifyn Ebrill 2020** – erbyn bore Sul, 1 Mawrth, 2020 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd am 11 o'r gloch 2 Mawrth, 2020.
- **Rhifyn Mai 2020 –** erbyn bore Mercher, 1 Ebrill, 2020 gan ein bod am bostio'r amlen pnawn Mercher am 1.00 o'r gloch i Lanuwchllyn.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Croeso – eich llythyron, y cwis, ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/2/2020.**

Rhifyn Chwefror heb y clawr.qxp_Layout 1 16/01/2020 13:26 Page 4

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cawsom gysur y Nadolig yn ymweliad Dr. John G. Williams â ni ar yr ail Sul a chynulleidfa gryno wedi dod ynghyd. Bu y Parchedig Robert Parry, y cynorthwydd bugeiliol yn ymweld â sefydliadau a theuluoedd yn y cylch. Cawsom ein bodloni yn fawr yn ymddangosiad y gyfrol *Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl* a werthir ar hyn o bryd.

Da deall fod cyfrol Saesneg o waith Dr. D. Ben Rees i ymddangos yn y flwyddyn 2020 a bydd yn rhaid inni gefnogi yr ymdrech hon gan y bydd Apêl am arian i gynorthwyo cyhoeddi y gyfrol yn *Yr Angor* y misoedd nesaf hyn. Gallwn edrych ymlaen felly i gyflwyno i Gymry y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth gyfrol y medrant eu darllen a gwerthfawrogi yr hanes. Blwyddyn Newydd Dda felly. Daeth *Y Rhwyd* i law sydd yn ein hatgoffa o weithgarwch y ddwy eglwys, Bethel a Bethania. Clywsom am brofedigaeth Mrs Phyllis Weaver, Birkdale ym marwolaeth ei phriod David a fu yn llesg y misoedd diwethaf hyn. Bu Phyllis a'r teulu yn ofalus ohono a chydymdeimlir â hwy yn y brofedigaeth lem.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*"Bydded cariad lle bu casineb,*
*Bydded gobaith lle bu anobaith,*
*A lle bu amheuaeth bydded ffydd,*
*Bydded cysur lle bu galar*
*A llawenydd lle bu tristwch,*
*A lle bu tywyllwch megis nos*
*Boed goleuni megis ffydd."*

Dyma addasiad Tecwyn Ifan o Weddi Sant Ffransis o Assisi, gallwn ninnau uno gyda'r un dymuniad ar ddechrau blwyddyn newydd arall.


Bu mis Tachwedd yn llawn o gyfarfodydd i'w gofio. Dechreuwyd ar Nos Lun, Tachwedd 11 pryd y cafwyd darlith yn y Gymdeithas Lenyddol gan Dr. Derec Llwyd Morgan o Ynys Môn ar y testun *'Carwriaeth Thomas Parry'*. Un o Garmel ydoedd Syr Thomas Parry yn Sir Gaernafon, yn ysgolhaig, yn brifathro yng ngholeg Aberystwyth a Bangor, ac yn ŵr hyderus cadarn, moesol a phwiritanaidd a chymeriad difyr a hwyliog. Syrthiodd mewn cariad â merch ysgol 15 oed o Ysgol Ramadeg, Caerdydd, Enid Picton Davies. Bu llythyru brwd rhyngddynt a ffrwyth y llythyrau caru hynny oedd cynnwys y ddarlith. Noson ddifyr iawn ac yn ennyn brwdfrydedd i ddarllen cofiant ardderchog Dr Derec i Syr Thomas Parry.

Nos Lun, Tachwedd 18fed, noson yng nghwmni'r 'Dysgwyr' sy'n cyfarfod yn wythnosol ym Methel ers pedair blynedd. Mike Farnworth yw'r un o'r tiwtoriaid, dysgwr ei hunan, yn eithriadol frwdfrydig dros yr iaith Gymraeg ac yn manteisio ar bob cyfle i'w siarad. Ef oedd arweinydd y noson. Cafwyd noson lawen ddifyr yn eu cwmni, ychydig o ganu, adrodd stori ac actio. Llongyfarchiadau iddynt. Maent i'w hedmygu'n fawr.

Bore Sul, Tachwedd 24 y Parch Robert Parry oedd yng ngofal y gwasanaeth a daeth a dwy Gymraes i'r oedfa sy'n byw mewn cartref gofal bron dros y ffordd i'r capel sef Mrs Gwyneth Ferris (cyn aelod o Douglas Road) a Mrs Iola Thornton – y ddwy wedi mwynhau'r canu yn fawr iawn.



***Robert Parry***



***Mike Farnworth ar Noson y Dysgwyr***



***Rhai o'r Dysgwyr***



***Gill yn adrodd hanes digri***

Rhifyn Chwefror heb y clawr.qxp_Layout 1 16/01/2020 13:26 Page 5

Yna nos Fawrth, 26 Tachwedd uno fel Cymdeithas gyda Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru (Cangen Lerpwl) a Chymdeithas Cymry Lerpwl i hwyluso genedigaeth cyfrol sylweddol, swmpus, o waith ein Gweinidog gweithgar, Dr. D. Ben Rees. Gan fod adroddiadau eraill am y noson cyhoeddwn ddau lun fel cofnod o'r noson gofiadwy.

**Rhagfyr –** Roedd mis Rhagfyr yn fwrlwm o weithgareddau, dyma dymor yr Adfent i'n paratoi ni at y Nadolig, Gŵyl yr Ymgnawdoliad.

Y Sul cyntaf yn Oedfa Gymun o dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Ddr. D. Ben Rees, ac ef fu'n ein harwain at y preseb yr ail Sul. Ar nos Lun, Rhagfyr 9fed o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol rhaglen 'Ar Drothwy'r Nadolig' yng ngofal Nan Hughes Parry. Bore Sul y 15fed Oedfa eto dan ofal ein gweinidog, Mr. Ifor Griffith, Mrs Anne M. Jones a Mrs Margaret Anwyl Williams a Chantorion Bethel, a choffi a danteithion Nadolig yn dilyn yn y ganolfan.

Ar fore'r Dydd Nadolig y gwasanaeth dan arweiniad Dr. Pat Williams a Dr. John G. Williams ac aelodau eraill o'r eglwys. Y Sul olaf o'r flwyddyn eto o dan arweiniad ein gweinidog Dr. Rees. Diolchwn iddo am ei fugeiliaeth drosom ar hyd y flwyddyn a'n dymuniadau gorau iddo ac i Mrs Meinwen Rees i'r flwyddyn newydd.

Cydymdeimlwn â Mrs Gwenfyl Bain ar golli ei brawd Mr. Meirion Evans, Henllan ac anfonwn gyfarchion yr Eglwys at yr aelodau sy'n methu â dod i'r oedfaon oherwydd amryfal amgylchiadau.

Cofiwn am Mr. Gwilym Lewis o Barc Sefton sydd ers rhai wythnosau yn yr Ysbyty Frenhinol, a gwethfawrogodd ymweliad y Parchedig Robert Parry ag ef cyn y Nadolig. Bellach aeth naw mis heibio ers dyfodiad ein cynorthwydd bugeiliol a chaiff gefnogaeth gref gan ei Weinidog a'r blaenoriaid gyda'i oruchwylion ar y Glannau.

Gair o longyfarch i gloi. Estynnwn ein llongyfarchiadau i Miss Lowri Phillips, Allerton ar raddio'n feistr yn y Gyfraith ML (Master of Law) o Brifysgol John Moores, Lerpwl a chafodd ei hurddo ychydig cyn y Nadolig.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Ar nos Fawrth, Tachwedd 5ed cawsom noson i gofio Guto Ffowc. Cafwyd cwis am Guto ffowc a chynllwyn y Powdr gwn i ladd y Brenin Iago yn 1605. Cafwyd digon i fwyta wedyn ac 'roedd rhwyfaint o'r bwyd wedi ei ardduno i'n 'hatgoffa o'r achlysur! Diolch i bawb a gyfranodd at y bwyd.

Y nos Fawrth ddilynol ar Dachwedd 12fed daeth Gethin a Glesni o Benygroes, Dyffryn Nantlle atom a chawsom noson o gân. Gethin sydd yn cyfansoddi y

## *Noson o Lawenydd oedd Noson 'Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl' gan Nan Hughes Parry*

Roedd noson Tachwedd 26ain yn llawn llawenydd i ni yma ym Methel pryd y lansiwyd y gyfrol *'Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl'* o waith ein gweinidog y Parchedig Ddoctor D. Ben Rees.

Roedd hyn yn fenter anferth iddo ef a'r cyhoeddwyr. Cyflawnodd lawer o waith ymchwil manwl o'r Cymry cyntaf ar Lannau Mersi i'n cyfnod ni heddiw.

Cyflwynodd y gyfrol i Meinwen a diolch i Dr. Pat Williams am gymorth i baratoi y deipysgrif ar gyfer y wasg. Gwelwyd peth o'r dathliadau ar rhaglen *Heno S4C,* Dr. Rees yn Garth Drive, yna Penny Lane cerdded drwy Barc Sefton gyda Gerallt Pennant o *Heno* yn y prynhawn a rhai cyfweliadau yn y capel.

Cafwyd cyfarchion i Dr. Rees gan nifer o Gymdethasau'r Glannau. Yn yr ail ran o'r rhaglen, bu Dr. John Williams, Cadeirydd *Yr Angor* yn holi'r awdur am y gyfrol a chyflwynwyd darnau blasus gan Nan, Beryl, Brian a'r Parch. Robert Parry a datganiadau gan Gantorion Bethel.

Yna gair cymeradwy iawn gan Marged Tudur, Golygydd o Wasg y Lolfa a Selwyn ac Anne o Siop y Siswrn, yr Wyddgrug oedd yng ngofal y gwerthiant. Bu cyfle ar y diwedd i Dr. Rees lofnodi y gyfrol a'i gwerthu a chyfle i gymdeithasu, a lluniaeth ysgafn i gloi y noson.

Mae clawr y gyfrol yn atyniadol iawn ac yn sicr bydd prynu a darllen helaeth ar yr hyn a alwyd yn Wyddoniadur Cymry Lerpwl. Dyma gofnod rhyfeddol o hanes Cymru i ni heddiw, ac i'r cenedlaethau a ddaw yn y dyfodol i'w werthfawrogi fel ninnau.



*Dr. D. Ben Rees yn arwyddo ei gyfrol*



*Selwyn ac Anne Evans o Siop y Siswrn, Yr Wyddgrug oedd yn ngofal y gwerthiant*



*Danteithion Noson Tân Gwyllt*
*– Y Rocedi –*



*Catherine Wheel*



*Coelcerth*

caneuon a chafwyd unawdau a deuadau ganddynt. Braf oedd cael clywed gan Gethin am y 'storiau tu ôl' y caneuon. Yn ystod y noson cawsom 'Godi Angor', 'Dal y gannwyll' a 'Bod yn longwr'. Buom yn crwydro o'r Cilgwyn i Ddinas Dinlle, i'r America ac yng ngwlad y cowboi yn Wyoming. Bu Gethin yn sôn am y rai o'r cymeriadau sydd wedi dylanwadu arno ef sef ei daid yn Nalysarn a Taid a Nain, Amlwch. Hefyd y Taid a Nain newydd yn Wyoming. Cafodd Glesni a Gethin aros yn eu cartref pan oeddynt yn ymweld â'r ardal. Maent yn sôn am y Nain yma yn ei gân ' Elen'. Noson ddifyr a chartrefol. Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed am farwolaeth annisgwyl mam Glesni y diwrnod wedyn. Anfonwn ein cydymdeimlad i Glesni a'i theulu.

Yr wythnos wedyn cawsom noson gerddorol gyda'r Parchedig Robert Parry yn olrhain hanes rhai tonau yn *Caneuon Ffydd* a'r hen lyfr emynau sydd wedi eu cyfansoddi gan gyfansoddwyr



*Glesni a Gethin yng Nghymdeithas Cymry Lerpwl*

cerddoriaeth clasurol. Bu'n sôn am nifer o'r cyfansoddwyr gan cynnwys J. S. Bach, Beethoven a Handel heb anghofio y Gymraes ddawnus Morfydd Llwyn Owen a fu farw gan mlynedd, mewn amgylchiadau amheus, a hithau ond yn 26 oed. Mae hi wedi cyfansoddi rhai tonau a chaneuon clasurol e.e. 'Gweddi Pechadur'. Cawsom cyfle i ganu rhai o tonau y soniwyd amdanynt gyda'r Parchedig Robert Parry yn cyfeilio i ni. Diolch iddo am ddefnyddio ei ddoniau cerddorol i'n difyru.

Ar y nos Fawrth olaf ym mis Tachwedd cafwyd noson i lansio llyfr y Parch. Ddr D. Ben Rees 'Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl'. Llywyddwyd y noson gan Mrs Nan Hughes Parry a Mr Roderick Owen. Cafwyd cyfarchion gan nifer o gymdeithasau y Glannau sef Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi, Cymdeithas Lenyddol Bethel, Urdd y Graddedigion, Cymdeithas Cymry Lerpwl a Dosbarth Lerpwl o Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain.

Darllenwyd darnau o'r gyfrol gan Mrs Nan Hughes Parry, Mrs Beryl Williams, Mr Brian Thomas a Parchedig Robert Parry a chafodd yr awdur ei holi am ei waith a chynnwys y llyfr gan Dr. John Williams. Daeth cynrychiolydd o'r Lolfa, Talybont i ddweud gair o werthfawrogiad a chafwyd dwy eitem cerddorol gan Gantorion Bethel. Yn ystod y dydd bu cwmni teledu Tinopolis yn mynd o amgylch Lerpwl yn cyfweld Dr. Ben Rees a hefyd yn gwneud cyfweliadau ym Methel. Cafodd yr eitemau eu dangos ar y rhaglen 'Heno' ar S4C. Wedi'r cyfarfod cafwyd paned o de a chyfle i brynu'r cyfrol am £19.99 (clawr meddal) a £29.99 (clawr caled).

Y nos Fawrth ganlynol ar Rhagfyr 3ydd cawsom ein cinio Nadolig yng Nghlwb Golff Woolton. Roedd pawb wedi mwynhau y bwyd. Braf oedd gweld tri o fyfyrwyr prifysgol Lerpwl wedi ymuno a ni i'r cinio sef Dyfan, Jackie a Holly. Diolch i'r ysgrifenyddes, Norma Owen, am drefnu'r noson.

Yr wythnos wedyn yn ein cyfarfod olaf am y flwyddyn cawsom groeso yng nghartref Kath a John Norton yn Woolton. 'Roedd llawer o ddanteithion wedi ei baratoi ar ein cyfer, a chawsom gyfle i sgwrsio a chanu carolau i'n hatgoffa o wir ystyr y Nadolig.



*Enillwyr cwis am Guto Ffowc*

# CYMDEITHAS CYMRY BIRKENHEAD

Arwel oedd llywydd y noson ar Dachwedd 11fed i groesawu Dr. John Williams atom. Mae bob amser yn bleser gweld a chlywed ein cyfeillion o Lerpwl sydd mor barod i'n cefnogi.

"Lluniau Eisteddfodol" oedd gan Dr. John a thrwyddynt a'i sgwrs diddorol aeth a ni ar daith drwy'r blynyddoedd ar drywydd ein Gŵyl unigryw. A oes unrhyw wlad fechan sy'n dal i gynnal wythnos a mwy i ddathlu iaith, llenyddiaeth, cerddoriaeth a chelfyddyd, pob blwyddyn? Tybed mai'r rheswm am hyn yw hoffter y Cymry i gyfarfod ein gilydd mewn capel, cymdeithas, côr ac Eisteddfod.

O ddyddiau cynnar, oes Maelgwn, yn y burned gannrif, ceir hanes am ŵyl i ddathlu'n gwlad, a thrwy'r oesoedd mae gwyliau tebyg wedi codi. Cynhaliodd Rhys ap Gruffydd eisteddfod yn 1176 yng nghastell Aberteifi ac oddiyno tyfodd yr ŵyl dros y cenedlaethau. Yng Nghaerwys yn 1567 gwnaed trefn ar drwyddedu beirdd i greu safon derbyniol. Mae'r amodau a osodwyd yno yn dal yr un fath heddiw.

Yn 1770 ffurfiwyd Cymdeithas y Gwyneddigion yn Llundain gan Gymry blaenllaw ac yn eu mysg oedd Iolo Morganwg, gŵr dylanwadol ar fywyd llenyddol Cymru. Casglodd lenyddiaeth canol oesol mewn dulliau braidd ym amheus ar adegau. Ffurfiodd Orsedd y Beirdd, a gosododd sylfeni eisteddfodau'r dyfodol. Cynhaliodd yr Orsedd gyntaf ym Mryn y Briallu, Llundain yn 1792, ac yn 1819 yn Nghaerfyrddin llwyddodd Iolo i uno'r orsedd gyda'r eisteddfod, cynllun sy'n parhau, er gwaethaf ambell ei anghydfod.

Yn y dyddiau hynny, rhoddwyd medalau i'r buddugwyr, ac roedd llawer o'r cerddi yn Saesneg. Datblygodd y tyfiant yn raddol, dechrau eisteddfodau rhanbarthol, mwy o bwyslais ar y Gymraeg a mwy o Gymry yn cymeryd diddordeb ac yn cefnogi. Daeth yn Genedlaethol yn 1861, a syndod inni oedd clywed mai yng Nghaer y bu'r eisteddfod cyntaf yn Lloegr yn 1866 lle daeth saith mil, ar y Roodee rhoddwyd cadair am y tro cyntaf. Amlinellodd Dr. John amryw o ddyddiadau diddorol o hynny ymlaen, gyda lluniau hanesyddol a sylwadau trawiadol gan gyfeirio yn arbennig at eisteddfodau Lerpwl, a Phenbedw, y beirdd a anrhydeddwyd ynddynt, a digwyddiadau anarferol. Aeth ef i'w Eisteddfod cyntaf yn Llandudno yn 1963 ac mae wedi dilyn er hynny gyda brwdfrydedd. Urddwyd Dr. John i Orsedd y beirdd, ond roedd yn rhy wylaidd i sôn am achlysur mor arbennig yn ei fywyd.

Un o'i freuddwydion yw cael Eisteddfod yn Lerpwl yn 2029 a chroesawu William, Dug Caergrawnt i'r Orsedd – efallai fel Tywysog Cymru.

---

Cawsom noson hyfryd ar Dachwedd 26ain yng nghwmni Mr John Dilwyn Williams, Penygroes gyda'i sgwrs ar "Blas Glyn y Weddw", Llanbedrog ger Pwllheli. Mae John Dilwyn yn hanesydd o fri, yn arbenigo yn ardaloedd Llŷn, Dyffryn Nantlle ac Arfon yn gyffredinol. Mae'n parhau i weithio rhan amser yng ngwasanaeth Archifau Gwynedd ac yn gadeirydd Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon.

Adeiladwyd y plasdy presennol dros ganrif a hanner yn ôl, ac ynddi mae oriel gelf hynaf Cymru. Saif mewn lleoliad godidog gerllaw traeth Llanbedrog a gwelir golygfeydd wych o fae Ceredigion a mynyddedd Eryri. O'i amgylch ceir coedwigoedd hynafol gyda llwybrau hwylus ymysg planhigion tymhorol. Mae'n fan hyfryd sy'n haeddu ymweliad.

Yn y plas mae ffenestr liw sy'n coffau gweddw Syr Love Jones Parry, uchelwr a "tipyn o gymeriad" o gastell Madryn. Adeiladwyd y plas gan ei weddw yn 1857, ond ychydig a amser y treuliodd hi yno, yn aros ond ychydig o nosweithiau. Bu llawer o brynu a gwerthu'r tir a'r plas wedi hynny gydag amryw o deuluoedd yn byw yno. Yn 1943 bu'n gartref i ferched "Byddin y Tir", ac ar ddiwedd y rhyfel gwerthwyd y plas fel "Oriel" am y tro cyntaf, gyda'r amod na ddylid symud y casgliad gelf, y dodrefn, y crochenwaith, na dim, oddiyno. Y dyddiad nesaf o bwys yw 1979 pan brynodd Dafydd a Gwyneth ap Tomos y plas ac ail agor yr Oriel, fel mae heddiw yn 1984. Yn 1997 sefydlwyd cwmni Plas Gwyn y Weddw i brynu'r cyfan gyda chymorth arian Treftadaeth y loteri. Yn 2012 agorwyd Theatr awyr agored, "John Andrews" sydd yn weithgar a llwyddianus - er gwaethaf tywydd gogledd Cymru!

Eirwen oedd llywydd y noson, a diolchodd i John Dilwyn am noson arbennig o ddiddorol, ac i Terry, Llwynwen, Beti, a Menna am eu cyfraniad. Cyfeiriodd at lwyddiant Geraint yn myd garddio wedi iddo dderbyn clod uchel gan y R.H.S. am ei waith yn y gymuned. Clywsom hefyd am farwolaeth Mrs Jane Cole, cyn aelod, yn 105 oed. Symydodd Jane i'r 'Wyddgrug beth amser yn ôl, ond roedd yn dal mewn cysylltiad ag aelodau'r Gymdeithas. Diolch i Mair, Phyllis a Terry am ein cynrychioli yn yr angladd.

---

Mae Mr Gwynfor Jones Ewloe (gynt o Rhuthun) yn hen gyfarwydd a'n Cymdeithas ni. Dyma'i bumed ymweliad ac mae bob amser yn ein diddorol gydag hanesion o'i fywyd prysur ymroddgar. Clywsom yn y gorffenol am effaith ei dad a'i daid ar ei ddiddordebau, ei hoffter o natur a'r tir, a'i benderfyniad i lwyddo yn ei waith, ac yn ei wasanaeth i eraill.

Mae'n aelod o gôr 'Y Porthmyn' (o'r Drovers Arms yn Rhewl) ers bron naw mlynedd. Sefydlwyd y côr bach gyda thri pwrpas; mwynhad a hwyl, brwdfrydedd, a chodi arian at achosion da yng Ngogledd Cymru. Hyd yn hyn maent wedi codi dros deg mil o bunnau, ac wedi canu gyda Rhys Meirion, Sian Cothi, ac eraill.

Cawsom ddisgrifiad byw a gafaelgar am waith Gwynfor o'i ddyddiau cynnar mewn siop gig, i adeiladwr llwyddiannus a chywrain. Mae'n amlwg ei fod wrth ei fodd yn ei waith ac wedi mwynhau teithio'r Gogledd o Ddyffryn Clwyd i ben Llŷn a Lloegr, cyfarfod â chymeiriadau amrywiol, da ac amheus, ac atgyweirio adeiladau hanesyddol pwysig a bywiog ac fe gawsom noson arbennig o ddiddorol. Eirwen oedd llywydd y noson, a diolchodd i Gwynfor, i Terry, Menna ac i bawb a gyfranodd at ein parti Nadolig.

## *Gwledd i'r Cymry Chwefror 2020*

***yn y Ganolfan (Canolfan y Cymry) Auckland Road/Heathfield Road, Lerpwl L18 6HX (can llath o Allerton Road, Church Road, Smithdown Place a Penny Lane). I ddechrau: 7.30.***

1. **Nos Lun, 3 Chwefror 2020** am 7 o'r gloch (sylwer yr amser). Darlith ar y *Fonesig Ruth Herbert Lewis* gan Mrs Prydwen Elfed Owen. Cadeirydd: Parchedig Robert Parry.

2. **Nos Fawrth, 4 Chwefror.** Mair Tomos Ifans ar *Hanes y Fari Lwyd.* Cadeirydd: Margaret Anwyl Williams.

3. **Nos Lun, 17 Chwefror.** Dangosir ffilm *Solomon a Gaenor* i'w gyflwyno gan Mrs Sara Fielding.

4. **Nos Wener, 29 Chwefror 2020.** Cinio Gŵyl Ddewi (y Gymdeithas Lenyddol a Chymdeithas Cymry Lerpwl ar y cyd) yng Nghlwb Golff Woolton. I agor am 7 o'r gloch. I ddechrau 7.30. *Gŵr gwadd:* Elfyn Llwyd, Llanuwchllyn,(cyn Aelod Seneddol etholaeth Meirionnydd) *Artist:* Eleri Llwyd, Llanuwchllyn. *Llywydd:* Dr. D. Ben Rees (Tocynnau ar werth ar hyn o bryd - Pris £25)

Rhifyn Chwefror heb y clawr.qxp_Layout 1 16/01/2020 13:26 Page 8

# Gweithgarwch Cymry Manceinion a'r Cylch

Aeth y Nadolig heibio a dyma ni yn y flwyddyn newydd 2020 sydd yn agor degawd Newydd i ni hefyd. Pob bendith a nerth i ddarllenwyr yr *Angor* yn y flwyddyn Newydd hon. Ond cyn mis Ionawr roedd gennym gyfarfodydd i'n difyrru ac ni chawsom ein siomi gan y Parch Ddr D. Ben Rees unwaith eto yng nghymdeithas Cymry Manceinion gyda'i anerchiad diddorol a doniol am 'Ceiriog y Bardd ym Manceinion' cymeriad a drigodd ym Manceinion am sbel ond a aeth yn ôl i Gymru i fyw ar ddiwedd ei oes. Yr oedd yn fardd arbennig yn niwedd y ddeunawfed ganrif a'r ugeinfed gynnar.

Ar Ragfyr y 4ydd aeth ein cinio Nadolig yn hwylus eto yn y gwesty 'Swan with Two Nicks', sydd wedi cael ei gymeradwyo yn ddiweddar ar y cyfryngau.

Daeth tua 30 o Gymry at ei gilydd, gydag un o wlad Portiwgal, gwraig i Dafydd Llewellyn, a chawsom ginio Nadolig gyda pwdin Nadolig a oedd wedi eu paratoi ar ein cyfer, mewn platiau llai nag arfer. Nid oedd hwn yn hollol dderbyniol i bawb ond roedd y gymdeithas yn hynod o gynnes a chawsom mwynhad mawr yng nghwmni ein gilydd mewn lle mor cysurus.

Roedd cyngerdd y myfyrwyr ar Ragfyr 7fed yn llwyddiant mawr a'r capel dan ei sang. Mae'n rhaid dweud bod y gerddoriaeth yn creu awyrgylch arbennig iawn a phawb wedi eu cyffwrdd gan neges y Nadolig a'r anogaeth i gael hyd i amser i ddathlu Iesu Grist a'i oleuni i'r byd as dim bod yn rhy brysur. Rydym mor falch o groesawu'r bobl ifainc hyn, rhai ohonynt yn blant yr Eglwys sydd ym Mhrifysgol Manceinion. Roedd yn bleser o'r mwyaf hefyd i weld y rhieni eto a chyfeillion y côr yn eu cefnogi. Roedd y myfyrwyr wedi darparu mins peis a paned ar y diwedd ac roedd llawer o sgwrsio bywiog. Diolchwn i Dduw am yr achlysur hapus hwnnw.

Ar y nos Wener 13 Rhagfyr, (noson canlyniadau'r etholiad!) cawsom ein trosglwyddo i fyd arall gyda Noson Nadoligaidd yng nghwmni Trefor a Glynn. Roedd gofyn i'r gynulleidfa ymuno yn rhai o'r carolau a llawer o eitemau gan Trefor a Glynn a oedd ganddfynt naws y Nadolig. Diolch o galon iddynt.

Ar y 22ain cawsom ein dathliad Nadolig dwyieithog yng nghapel Altrincham yn y prynhawn a chynulleidfa reit dda yno i ymuno â'r rhaglen a chynrychiolwyr o'r ddwy gynulleidfa yn darllen ac adrodd. Cafwyd y geiriau Saesneg ar y sgrîn a chanu carolau yn y ddwy iaith. Roedd pawb wrth eu bodd efo'r prynhawn. Daeth un Iddewes efo'i gŵr sydd yn Gymro, ac mae hi wedi dysgu Cymraeg yn dda iawn.

Roedd Tudor, mab Trefor a Glenys Davies, a Jan eu merch wedi cytuno cymryd rhan hefyd– Tudor yn chwarae'r trymped a'r ddau wedi paratoi cerdd *'Christmas Bells'* i'w darllen efo'i gilydd, gyda'r neges 'tangnefedd ar y ddaear ac ewyllys da i ddyn'. Dewisodd Mrs Anne Hunt gerdd Cymraeg i'w hadrodd gyda'r teitl: 'Hen Stori' gan T. Glyn Davies a chreu awyrgylch hyfryd fel arfer. A gwnaeth Trefor a Glynn eitem cerddorol i'n swyno. Mae'n anhygoel i weld y talent sydd yn ein plith a diolch yn fawr i bawb a gymerodd rhan yn arbennig Trefor a oedd wedi cyfeilio a perfformio trwy'r prynhawn. Pleser mawr hefyd oedd gweld rhai o'n cyn-aelodau - hen gyfeillion sydd wedi symud i Gymru, a phlant yr eglwysi yn y dathliad.

Yn anffodus nid oedd gennym wasanaeth Cymraeg ar Ddydd Nadolig, ond mae gennym gapeli ac eglwysi llu ym Manceinion lle cawn fynd i ddathlu noswyl a dydd Nadolig gydag eraill. Es i'r Eglwys cyfagos i'm cartref yn Stretford, oedfa haner nos ac fel arfer roedd yno awyrgylch bendigedig a'r Cymun Sanctaidd gyda gweddïau addas a llawenydd mawr. Mi wnawn ni ddathlu'r flwyddyn Newydd yn ein capeli Cymraeg yn Ionawr a diolchwn i Dduw am ei fendithion gydol y flwyddyn a aeth heibio. Ymddiriedwn yn ei gariad at y dyfodol a byddwn yn ffyddlon ym mhob ffordd yn y dyfodol, er gogoniant Iddo.

***Eleri Edwards***



***Dr Ben Rees yn darlitho yn nghyfarfod o Gymdeithas Cymru Manceinion***



***Aelwyd Manceinion***



***Ein Cinio Nadolig***

Rhifyn Chwefror heb y clawr.qxp_Layout 1 16/01/2020 13:26 Page 9

# ADOLYGIAD

## D. Ben Rees, **Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl.** Gwasg y Lolfa, 2019. 310 tt. £19.99


Ceir gwledd o ddarllen difyr o fewn y gyfrol gynhwysfawr, swmpus, awdurdodol hon, ei diwyg disglair, sgleiniog yn glod mawr i grefftwyr eithriadol o ddawnus Gwasg y Lolfa, Talybont. A gellir datgan ar unwaith yn yr achos hwn ei bod yn cynrychioli llafur oes mwy neu lai. Mudodd y Parchedig D. Ben Rees, brodor o ardal Tregaron yn wreiddiol, o Gwm Cynon i ddinas Lerpwl dros hanner canrif yn ōl bellach y flwyddyn 1968 a threuliodd ei yrfa fel gweinidog ymroddgar o fewn y ddinas honno.

Fel sydd yn hollol nodweddiadol ohono wrth gwrs, dechreuodd ymddiddori yn hanes y ddinas a'i chyffiniau cyfagos bron o'r cychwyn cyntaf, ac aeth ati i gasglu llu o ffeiliau ymchwil trwchus oedd yn ymdrin â hanes cyfoethog y ddinas honno. Dyna yw sail yr astudiaeth safonol hon a nifer o gyhoeddiadau blaenorol ychydig yn llai uchelgeisiol a welodd olau dydd yn bur rheolaidd drwy gydol y blynyddoedd. Ceir rhestr hwylus ohonynt oll ar dd. 297-99 o fewn y gyfrol hon, ac ni allwn ond rhyfeddu at ei ymroddiad a'i egni di-ben-draw wrth iddo ymchwilio ac ysgrifennu yn ddi-baid drwy gydol y blynyddoedd.

Cryfder mawr y dadansoddiad a gynigir inni yma yw dawn ymchwil arbennig iawn yr awdur fel hanesydd eithriadol o brofiadol o'r iawn ryw a'i swyddogaeth fel un o bileri amlycaf a mwyaf ymroddgar Cymry Cymraeg y ddinas dros gyfnod maith. Bu wrthi'n cymdeithasu'n glos gyda nifer fawr o gymunedau tra amrywiol eu natur. Dyna oedd y cefndir i benderfyniad Cyngor dinas Lerpwl yn 2018 i'w gydnabod fel Dinesydd er Anrhydedd Dinas Lerpwl mewn seremoni a gynhaliwyd ym mis Hydref, braint arbennig iawn iddo ef a'i deulu.

Wrth bori drwy gynnwys yr astudiaeth, sylweddolwn o'r cychwyn cyntaf mor allweddol oedd cyfraniad Lerpwl at Gymru a thrigolion y wlad. Dros gyfnod hir iawn fe deithiodd miloedd ar filoedd o Gymry, yn fwyaf arbennig o siroedd gogledd y wlad, i Lerpwl (fel yn achos dinas Llundain a'r trefydd cyfagos) i chwilio am waith, swyddi mwy uchel ael fel arfer, a cheisio gwella ar natur eu byd diflas gartref. Yn y dyddiau cynnar, nid oedd tref Lerpwl fawr ddim mwy na phentref pysgota, ond daeth newid mawr ar fyd drwy'r degawdau.

Cryfder mawr yr astudiaeth yw ei bod yn trafod bron pob agwedd ar hanes y




Cymry o fewn dinas Lerpwl, a rhennir y cynnwys yn chwech ar hugain o benodau cymharol o fer sydd yn gwneud y gwaith darllen a dadansoddi yn weddol o hawdd. Mae'r awdur bob amser yn ysgrifennu mewn arddull ysgafn sydd yn hawdd ei ddilyn a'i werthfawrogi gan groestoriad eang iawn o ddarllenwyr amrywiol.

Yn dilyn cipolwg ar yr hanes cynnar, rhoddir pwyslais ar y newidiadau pellgyrhaeddol a ddigwyddai yn hanes crefyddol yr ardal yn sgil yr ymfudo o Gymru, a dadansoddir y gwahanol haenau o fewn y gymdeithas newydd. Rhoddir sylw llawn (gweler pennod 17 o fewn y gyfrol) i ystyried sgil effeithiau diwygiad crefyddol 1904-05 yn Lerpwl. Testun rhai o'r penodau mwyaf gafaelgar yw twf a dylanwad y wasg Gymreig o fewn y ddinas, natur y capeli Cymraeg eu hiaith a ddaeth i'w lawn dwf yn ystod teyrnasiad y Frenhines Fictoria, a'r cysylltiadau clos a ffurfiwyd gyda'r Wladfa yn Ne America, a rhai o'r meddygon mwyaf dawnus a gyfrannodd lawer iawn at ddatblygiad y ddinas.

Difyr odiaeth yw darllen am gyfraniad unigryw neb llai na'r digymar John Thomas at faes ffotograffiaeth ynghyd â hanes rhai o feirdd a llenorion amlycaf y ddinas, yn eu plith Goronwy Owen, Pedr Fardd a Gwilym Hiraethog a'r ysgolhaig Griffith Ellis, Bootle, ardal a fagodd nifer sylweddol o Gymry tra dylanwadol. Rhoddir sylw arbennig yn ogystal i bwysigrwydd y traddodiad o gynnal eisteddfodau lleol o fewn dinas Lerpwl a chyfraniad hollbwysig beirdd fel Gwilym R. Jones a Gwilym Deudraeth. Fel y byddwn wedi disgwyl, rhoddir ystyriaeth lawn yma i hanes a helbul y Gadair Ddu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Themâu eraill a drafodir mor gelfydd yma yw rhai o adeiladwyr Cymraeg amlycaf y ddinas a'r cysylltiadau agos a ffurfiwyd rhwng trigolion dinas Lerpwl a'r môr dros gyfnod maith. Ac mae'r gwaith ar ei hyd yn rhyfeddol o gyfoes gyda'r awdur wedi ymrwymo i adrodd yr hanes gafaelgar hwn hyd at y dwthwn hwn mewn nifer o feysydd gwahanol.

Anghyffredin o ddiddorol (gweler tt. 273-96) yw'r manylion bywgraffyddol difyr am yr unigolion hynny nad oedd modd eu clodfori'n a'u hystyried yn llawn yng nghorff yr astudiaeth. A cheir aml i enw lled gyfarwydd yn eu plith. Mae'r darn hwn o'r astudiaeth yn werthfawr dros ben fel cofnod dibynadwy a chywir. A thestun balchder yw gweld y rhestr o'r unigolion hynny a gefnogodd cyhoeddi'r gyfrol yn ariannol, amryw ohonynt â chysylltiad agos gyda dinas Lerpwl. A gwledd anghyffredin i'r llygad a'r meddwl fel ei gilydd yw'r cyfanswm o dros gant o ffotograffau a lluniau a gynhwysir o fewn y gyfrol, y mwyafrif ohonynt yn eiddo i'r awdur dysgedig ei hun.

Wele astudiaeth sydd wedi ennill ei lle ar silffoedd pawb sydd yn ymddiddori o ddifrif yn hanes ein gwlad.

***J. Graham Jones***

**Ymddiriedolaeth Cronfa Dewi Sant,**
**Lerpwl 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW**

## YSGOLORIAETHAU I'R DYSGWYR

1. Cynigir dwy Ysgoloriaeth gan yr Ymddiriedolaeth i ddynion a merched sydd yn ddysgwyr yr iaith Gymraeg ar gyfer dilyn cwrs yng Nghanolfan Iaith, Nant Gwrtheyrn.

2. Ysgoloriaeth gyntaf gwerth £300 i ddysgwyr blwyddyn gyntaf. Yr ail Ysgoloriaeth gwerth £300 ar gyfer Dysgwyr lefel uwch, ail, trydydd, pedwerydd blwyddyn.

3. Y mae'r Ysgoloriaethau hyn yn gyfyngedig i ddysgwyr sydd yn byw, neu yn gweithio, neu yn mynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg o fewn talgyrch Glannau Merswy.

4. Dylid anfon y cais i'r cyfeiriad uchod gyda llythyr oddi wrth y tiwtor, a braslun o ymrwymiad y dysgwr i'r Iaith Gymraeg hyd yn hyn. Anfoner i Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth, Dr. D. Ben Rees erbyn bore Sadwrn, 1 Chwefror 2020 a chynhelir cyfweliad ar 3 Chwefror yn Lerpwl am 6.30 o'r gloch.

# ADOLYGIAD O GYFROL NORMAN CLOSS

## *gan y Prifardd John Gruffydd Jones, Abergele*

*Norman Closs,*
**SAWR ATGOFUS ORIAU**
*Lerpwl, Gwasg Cyhoeddiadau Modern Cymreig, clawr caled, Rhagfyr 2019. Tud 57 Pris £10.*

Faint o ddarllen sydd ar gyfrolau o farddoniaeth Gymraeg bellach? Ychydig iawn yn ôl yr ystadegau diweddaraf, ond dyma gyfrol sy'n haeddu sylw am sawl rheswm, a rhaid canmol y Dr D. Ben Rees a Chyhoeddiadau Modern Cymreig am gyfrol hynod o ddeniadol ei delwedd. Rhaid nodi yn ogystal lluniau y ffotograffydd Sion Jones o Abergele hefyd, ac mewn dyddiau anodd mae cyfrol o'r safon yma am £10 yn fwy na bargen. Mae'r argraffu hefyd yn lanwaith ac eglur. Felly beth am y cynnwys?

Fel y dywed Alan Llwyd yn y cyflwyniad, bardd sy'n agos at natur yw Norman Closs, awen yr awyr agored yw ei awen, ac mae hynny'n pefrio mewn sawl cerdd. Ond nid gweld mawredd Natur yn unig mae'r bardd yma, ond yn hytrach teimlo gwefr Natur, a'r teimlo hwnnw sy'n baent ar ei ddarlunio geiriol.

Mae yma dros ddeugain o gerddi, gwahanol fesurau o englynion, sonedau, cwpledi i emynau, cerddi penrhydd a Hen benillion, ac mae cred grefyddol y bardd ynghyd ac ambell fflach o hiwmor y dod i'r wyneb yn aml, ac fe rown i lawer am ei feistrolaeth o'r gynghanedd. Y soned *'Hyn yw'r Sacrament'* sy'n rhoi gwefr i Alan Llwyd, ac yn sicr mae'n soned gref a hynod deimladwy, ond ail ddarllen a hynny sawl gwaith, yr englyn gwych i Enid Jones, Rhuthun ar dathlu ei 90 oed wnes i, ac yno daeth y sawr sydd yn nhestun y gyfrol i felysu'r darllen.

Ond mae yma sawl cerdd afaelgar sy'n eilio'r 'teimlo' y soniais amdano ar y dechrau. Nid disgrifio moel sydd yma, ond mewn cerdd fel 'Y Cwpan' mae'r islais sydd ynddi yn dangos bardd mor gelfydd sydd yma, ac mewn cyfnod pan mae bratiaith mor amlwg, mae ystod eang yr eirfa yn amlygu cefndir cyfoethog yr awdur. Prynwch y gyfrol yma, trysorwch hi a throwch ati yn aml, yn 2020 ac i'r blynyddoedd a ddaw.



Cawsom noson lansiad yn Nhreffynnon o dan gadeiryddiaeth Dr Goronwy Wynne, Licswm ac yr oedd y cyhoeddwr a'r llyfrwerthwr Siop Sisiwrn ynghyd â chynulleidfa gref o feirdd a charedigion iaith Sir y Fflint yn bresennol. Braf oedd cael clywed teulu'r bardd Norman Closs Parry yn darllen rai o'i gerddi cofiadwy.

*John Gruffydd Jones.*



*Norman Closs, Dr. Goronwy Wynne a Dr. D. Ben Rees*



*Merched a wyresau y bardd yn darllen ei gynnyrch*

## ATEBION I CWIS YR ANGOR RHAGFYR 2019 A IONAWR 2020

Am yr eildro yn olynol rhaid rhannu'r wobr sylweddol rhwng dau o'r pencampwyr yn myd Cwis yr Angor, sef Mrs Davida Broadbent, Roby a David Williams. Rydym yn bwriadu y tro nesaf roddi Cwis dipyn yn wahanol er mwyn gweld os y cawn un enillydd. Beth amdani? Hoffai'r Golygydd, 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW gael eich atebion i Gwis Chwefror 2020 erbyn 27 Ionawr 2020. Dyma atebion Cwis Rhagfyr 2019.

1. David **Bell**
2. Robert Griffith **Berry**
3. David **Bowen**
4. **Bob Brittania** (Robert Jones, Y Telynor Cymreig)
5. **Biwmares**
6. Y **Barri**
7. Percy Frank **Bush**
8. William John **Bancroft**
9. William Ambrose **Bebb**
10. H. Idris **Bell**
11. **Braslunio**
12. Afon **Braint** (Llanfair P.G.)
13. Aneurin **Bevan**
14. Stanley Price Morgan **Bligh**
15. Côr **Bro** Meirion (Dolgellau) Côr Meibion Y **Brythoniaid** (Blaenau Ffestiniog)
16. Guto **Bebb**
17. Parch. **Ben** Davies
18. Henry **Bracy**
19. **Bathseba** (mam Solomon)
20. **Boed** fy mywyd oll yn ddiolch dim ond diolch yw fy lle; ni wna gwaredigaeth ragor i greadur is y ne'.

*Coffâd*

## Gwyneth Ellis (neé Macdonald)

**1933-2019, Trefebin**

O ganlyniad i godwm ac i lesgedd yn dilyn, bu farw aelod annwyl o'n Cymdeithas Gymnaeg ym Mhenbedw, ym mis Hydref. Mae'r enw Macdonald yn gyfarwydd iawn yng Nghilgwri, yn arbennig ymysg Cymry'r ardal. Mae tai a adeiladwyd gan gwmni Alun Macdonald i'w cael ymhob cwr o Gilgwri, yr un mor gadarn ag erioed. Hannai'r teulu o Sir Fflint, ac o Dreuddyn daeth Gwyn a Gwladys, rhieni Gwyneth, i Bebington. O'r dechrau, y capel a'r Gymdeithas o Gymry ar y Glannau oedd canolbwynt bywyd cymdeithasol y teulu.

Ymaelododd y teulu yng nghapel Noddfa, ac yno bu Gwyneth yn ffyddlon a gweithgar hyd at ddiwedd yr achos. Bu'n organyddes ac yn ddiwyd yn holl weithgareddau'r capel – a adeiladwyd gan gwmni Macdonald. Wedi cau Noddfa, addolodd Gwyneth yn Salem, nes iddi rhoi gorau i yrru, ac ymuno ag Eglwys Fethodistaidd (Saesneg) Bebington. Yno cafodd groeso a chefnogaeth arbennig, a rhoddodd Gwyneth yr un ffyddlondeb ag i'r capeli Cymraeg.

Roedd nodweddion y teulu, fel cryfder cymeriad, gofal am eraill, ymroddiad llwyr a chydwybodol, yn flaenllaw ym mhob agwedd o wasanaeth Gwyneth i'w chapel, i'w gwaith ac i'w theulu! Ond yn fwy na hyn oll oedd ei ffydd Gristnogol personol. Yn ei deyrnged iddi yn yr arwyl, cyfeiriodd Mr Philip Ellis, Caerdydd, llys-fab Gwyneth, yn arbennig at y ffydd oedd yn gryfder iddi ym mhob achlysur.

Yn Ysbyty Arrowe Park, cawsant rannu hoff adnodau Gwyneth. "Myfi yw y ffordd, y gwirionedd ar bywyd". Dilynodd y ffordd ar hyd ei hoes a'r sicrwydd hyn oedd ei chymorth wrth neshau at y diwedd.

Bu'r arwyl yn Landican ar Dachwedd 5ed o dan ofal y Barch Sheila Prest, gyda darlleniadau ac emynau a ddewisodd Gwyneth, a chyfraniadau Cymraeg a Saesneg gan eu theulu.

*E.S.*

---

## Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi/Merseyside Welsh Heritage Society

# *APÊL/APPEAL 2020*

We are extremely grateful for the donations received towards the History of the Liverpool Welsh in the Welsh language which ensured that it appeared on 26 November 2019.

**We invite those who like to support the publication of the English language book, *Liverpool Welsh: A Remarkable History* to be published for Christmas 2020. All donations will be acknowledged in the Angor, and in the book, and a donation of £50 will ensure that you will receive a signed hard back copy.**

### Rhestr 1 (1/1/2020 i 31/1/2020)

1) Arwel a D. M. Williams, Roby y swm o..............................£50

Ceir rhagor o enwau yn y rhifyn nesaf.

***Can you please send your donations to Merseyside Welsh Heritage Society / Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi c/o 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.***

Yr eiddoch yn ddiolchgar,

***Dr. D. Ben Rees (Cadeirydd)***
***Ms Rachel Gooding (Trysorydd)***
***Dr. Arthur Thomas (Ysgrifennydd)***

# CWIS YR ANGOR CHWEFROR 2020

1. Pwy yw awdur *Y Tân Melys*, cyfrol o farddoniaeth o'r chwedegau?
2. Pwy a gafodd ei bortreadu yn y gyfrol deyrnged, *Lleufer y Werin?*
3. Pa wasg a gyhoeddodd *Gwaedd yng Nghymru* o waith J. R. Jones, yr athronydd?
4. Ym mha le yng Ngogledd Cymru y gwelir Bryn Mawr?
5. Pa dref hynafol sydd yn ymyl Cwmdwyfran?
6. Pwy a luniodd y cwpled:
   *'Ring out the old, ring in the new*
   *Ring out the false, ring in the true'*?
7. Beth a orfododd Lerpwl yn 1348 i adeiladu oamgylch Eglwys Sant Nicholas yn Lerpwl am 12 mis?
8. Pwy oedd Maer Lerpwl yn y flwyddyn 1351?
9. Faint a ddaeth i wrando Sankey a Moody yn Old Marl Pits, Lerpwl yn yr ymgyrch efengylaidd yn 1876?
10. Pa mor uchel yw Camp Hill ger Woolton?
11. Pa berthynas oedd rhwng Ken Dodd â John Leech a alwyd yn Diddy Man gan bobl Knotty Ash?
12. Gwasanaethodd William Oulton fel Cyfarwyddwr a Chadeirydd Banc yn Lerpwl. Beth oedd enw'r banc yn yr ail ganrif ar bymtheg?
13. Yn ble yn Lerpwl y ganwyd Dr. Maldwyn Edwards, un o weinidogion enwog yr Eglwys Fethodistaidd yn yr ugeinfed ganrif?
14. Faint o goliau a sgoriodd Dixie Dean dros Glwb Everton yn 1927/28?
15. Beth oedd poblogaeth Everton yn 1921 a 1971?
16. Beth oedd enw y gyfrol a gyhoeddwyd yn 1869 o waith Matthew Greyson?
17. Beth oedd enw gwraig Isaac Greene, West Derby? Fe'i priodwyd yn 1717.
18. Pwy oedd berchen treflan Everton yn y flwyddyn 1229?
19. Pwy oedd yn gyfrifol am adeiladu Wylva Road, Gertrude Road, Edith Road, Elsie Road a Lilian Road?
20. Yn Church Lane, Lerpwl y lleoliad tafarn hynaf y dref. Beth oedd yr enw?


---

**Anfonwch eich enw a'r atebion i'r Golygydd, a baratodd y Cwis.**
**Cyfeiriad: 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW.**
**Gwobr:**
**gwerth £20 o nwyddau neu arian sych ond mae'n wobr sylweddol iawn.**
**Ceisiwch ac fe gewch wobr yn y flwyddyn newydd a llongyfarchiadau i bawb sy'n cystadlu yn y Cwis Misol yr Angor yn 2020.**

Rhifyn Chwefror heb y clawr.qxp_Layout 1 16/01/2020 13:26 Page 12

# Cyflwyno Arddangosfa Troea

***gan Dr. Pat Williams, Allerton***



Ar hyn o bryd ceir arddangosfa yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn Llundain dan y teitl, *Troy: Myth and Reality*. Adroddwyd y stori am gwymp Troea yn wreiddiol yn yr *Iliad* a briodolir yn draddodiadol i Homer. Digwydd y stori hefyd mewn arwrgerdd Lladin o'r enw yr *Aeneid*, gan Vergil. Bu dadlau dros y blynyddoedd ynglŷn â lleoliad Troea a bu amheuaeth a oedd y ddinas wedi bodoli ai peidio. Erbyn heddiw tybir mai Troea yw Hisarlik, bryncyn archeolegol rhwng y Dardanelles yn Nhwrci a'r Môr Aegean.


Prif thema'r stori yw'r rhyfel rhwng Troea a Gwlad Groeg, a ddigwyddodd am fod y tywysog Paris o Droea wedi cipio Helena, gwraig y Groegwr Menelaus. Yn naturiol, cynddeiriogodd Menelaus am y sarhâd ac aeth gyda byddin i geisio achub ei wraig. Ar ôl deng mlynedd o amgylchynu'r ddinas yn ofer, lluniwyd ystryw i godi'r gwarchae. Adeiladwyd ceffyl pren anferth a'i lenwi â nifer o filwyr dethol. Yna cymerodd y Groegiaid arnynt eu bod wedi rhoi'r gorau i'r gwarchae ac esgus hwylio adref, ond gadawyd un dyn ar ôl i ofyn am loches gan y Troeaid. Dywedodd hwnnw mai offrwm i'r dduwies Athena oedd y ceffyl ond ei fod yn rhy fawr i'w gludo'n ôl i wlad Groeg. Llyncwyd y stori a thynnwyd y ceffyl i mewn i'r ddinas fel ysbail rhyfel. Neidiodd y milwyr allan a llosgi Troea'n ulw.

Efallai eich bod yn meddwl nad yw arddangosfa wedi ei seilio ar hen chwedlau clasurol yn berthnasol i'r byd modern ond, mewn gwirionedd, mae'n rhyfeddol o gyfoes. I ddechrau, mae'n ymwneud â rhyfel dianghenraid a aeth ymlaen am hydoedd cyn i'r gorchfygwyr ennill y dydd trwy dwyll. Mae'n disgrifio'r boen a'r trallod a ddaw yn sgil rhyfel. Mae hefyd yn ymwneud â chariad ac atgasedd, â charedigrwydd ac â chreulondeb, â ffyddlondeb ac â brad, ac yn fwy na dim, mae'n ymwneud â gobaith, oherwydd wedi i Droea gael ei dinistrio'n llwyr, mae carfan fechan o dan arweiniad Aeneas yn ffoi er mwyn sefydlu teyrnas newydd mewn gwlad arall yn y gorllewin. Onid dyna freuddwyd ffoaduriaid heddiw?

Mae stori Aeneas wedi bod yn ysbrydoliaeth i awduron o Gymry ers dyddiau Nennius, mynach a ysgrifennodd hanes Prydain yn y nawfed ganrif. Yn ôl Nennius daeth ŵyr Aeneas, dyn o'r enw Brutus, a ddaeth i Brydain i sefydlu teyrnas y Brutaniaid, a'u galw ar ei enw ei hun. Ond Sieffre o Fynwy a boblogeiddiodd y stori am Brutus, ac wrth geisio rhoi i'r Cymry orffennol mor ogoneddus ag oedd gan deyrnas Rhufain, aeth gam ymhellach a dyfeisio'r stori am y brenin Arthur a fyddai'n dychwelyd i ryddhau'r Cymry oddi wrth law eu gormeswyr a sicrhau iddynt oruchafiaeth dros Brydain benbaladr rywdro, fel yn amser Brutus.

Dywedodd y beirniad celf Will Gomperz fod mynd i weld arddangosfa *Troy* heb baratoi o flaen llaw, fel yr oedd ef heb ei wneud, fel edrych ar *Game of Thrones* hanner ffordd rhwng y seithfed dymor! Felly, dyma'r cefndir, rhag ofn bod rhai o ddarllenwyr *Yr Angor* ag awydd mynd i weld yr arddangosfa sydd ar agor tan 8 Mawrth. Gwelir yn y llun uchod adfeilion Hisarlik.

# CORNEL Y TRYSORYDD



## CHWEFROR 2020

| | |
|---|---|
| Mr a Mrs Selwyn Jones, Penmynydd | £25.00 |
| Mr a Mrs Huw Davies, Rhuthun | £25.00 |
| Mr a Mrs Dewi P. Owen, Pentrefelin | £100.00 |
| Ymddiriedolaeth Dewi Sant, Lerpwl | £200.00 |
| Mr a Mrs Frank Green, Anfield | £33.00 |
| Mrs Christine Hughes, Dinbych | £33.00 |
| Mrs Anne Maud Jones, Allerton | £20.00 |
| Miss Rachel Gooding, Lerpwl | £200.00 |
| Mrs Eirwen Sergent, Penbedw | £25.00 |
| Cyngor Llyfrau Cymru, Aberystwyth | £50.00 |
| Mr John Thomas, Allerton | £20.00 |
| Mr Nigel Cooper, Upton | £11.00 |
| Mrs Mary C. Williams, Cemaes | £12.00 |
| Mr a Mrs John Wyn Jones, Abertawe | £30.00 |
| Parch a Mrs Gwyndaf Richards, Llangadfan | £20.00 |
| **Cyfanswm** | **£804.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

Cysylltwch â'r

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

garthdriveben@gmail.com

Rhifyn Chwefror heb y clawr.qxp_Layout 1 16/01/2020 13:26 Page 13




## Cefndir Dechrau Canu yn Lerpwl o 1969 i 2019 – 40 mlynedd o gyfathrebu

*Annwyl Olygydd,*

Roedd yr erthygl a'r lluniau am recordio *Dechrau Canu Dechrau Canmol* yn dod ac atgofion yn ôl imi o'r amser, tua 1966 os cofiaf yn iawn, pan ddaeth y BBC, yr adeg honno, i eglwys Heathfield i recordio dwy raglen, *Dechrau Canu Dechrau Canmol* a rhaglen am Gymru Lerpwl rwy'n meddwl.

Roedd yn ddifyr i ddarllen fod Dr John G. Williams a Mr W. Meirion Evans wedi cydweithio gyda staff cwmni Rondo i baratoi'r capel ar ystafelloedd ar gyfer recordio dwy raglen o ganu emynau. Ar yr ymweliad yn yr 60a'u Michael Wynne Jones (mab y Barnwr J. Edward Jones) a minnau, a ninnau yn ein harddegau cynnar, a chafodd y fraint o weithio gyda'r BBC yn yr un modd. Roeddwn yn falch iawn o'r cyfle oherwydd roedd y BBC wedi ein cyflogi ac wedi talu'n hael. Wrth geisio cofio am yr ymweliad rwy'n siŵr mae Huw Tregelles Williams oedd y cyfarwyddwr ar y cyfan.

Ac wrth feddwl am y cyfnod hwnnw rwy'n cofio fod Alun Williams wedi dod i'r ddinas ar ran ei rhaglen 'Dewch Am Dro'. Fe recordiwyd y rhaglen yn Ysgol Y Bluecoat yn Church Road ac mi gefais y fraint o gael fy holi ar y rhaglen a chael dewis fy hoff gân.

(Bydd y golygydd yn fy nghywiro, rwyn siŵr, os ydw i'n anghywir yn unrhyw bwynt un yn fy atgofion).

Yn garedig o gynnes oddi wrth

*David Williams (gynt o Karslake Road, Lerpwl*

**Ymateb y Golygydd:** Mae llythyr David Williams yn dod ag atgofion fyrdd i mi gan fy mod wedi cyfeirio at yr ymweliad yn y gyfrol ar Gapel Webster Road, Heathfield Road a Bethel. Nid 1966 oedd y flwyddyn ond 1969. Fel y gwyddoch symudais â'r teulu o Abercynon i Allerton ym mis Mehefin 1968 yn olynydd i'r Parchedig Watkin Jones. Gŵr mor wahanol imi ym mhob ystyr. Cafodd ef gyfle i gyflwyno Oedfa'r bore yn ystod y deunaw mlynedd y bu'n bugeilio Eglwys flodeuog Heathfield Road. I lawr yn y De yr oeddwn i wedi cael y fraint o gyflwyno a bod yn rhan o ugeiniau o ddarllediadau radio a theledu o gapel Tabernacl ac o wahanol stiwdios yn y Brifddinas. Ac unwaith y symudais i ddinas Lerpwl yr oedd y cyfarwyddwyr BBC ac eraill ar fy ôl. Roeddwn wedi cydweithio lawer tro gyda'r Parchedig Tregelles Williams, ef yn adnabod rhieni Meinwen yn dda fel cydweinidogion Bedyddiwr Cymraeg. Gofynnodd imi drefnu dau ddarllediad, *Dechrau Canu a Dechrau Canmol* ar y teledu a chyfle yn yr ail raglen BBC i ddadansoddi Cymry Lerpwl a dyna pam i mi ofyn i'r Barnwr, Dr Idris Owen ac eraill lawer a fagwyd yn Lerpwl i gymeryd rhan yn y recordiad a wnaed yn yr Ysgoldy fawr. Bu'r naw mis yna yn gyfle i mi ddod i wybod pwy oedd pwy ymhlith y gynulleidfa niferus. Erbyn hyn mae'n siwr fod David Karslake wedi sylweddoli pwy a awgrymodd ei enw, ef a Michael, i Tregelles a'i gyd gynhyrchwyr i gydweithio gyda hwy ar ran Capel Heathfield Road. Rwy'n falch eu bod wedi talu yn hael oherwydd fe aeth fy ffi i gyllid y capel!!! Cysylltiad personol a ddaeth ag eraill y medrai gyfeirio atynt fel y bardd T. Glyn Davies, Wyre Thomas, ffrind Coleg ag Alun Williams y cyfeiria D.W. amdano yn Bluecoat. Un o Landdewibrefi oedd tad Alun, y Parchedig David Williams a'i briod yn ferch i Rhys Hopkin Morris, y gwleidydd, a chofiaf ei chwaer yn gymydog agos inni yn y pentref. A dyna roddi y cefndir i ddarllenwyr yr *Angor* a goleuo atgofion Dafydd o Karslake. Oddiar hynny cawsom *exposure* da gan gyfryngau Cymru a diolch amdanynt bob amser hyd yn oed pan y maent dipyn yn ddall – *Golygydd*.

***Coffâd***

# Margaret Delyth Morris

## *(1936-2019), Skelmersdale*

Daeth chwithdod i'n bywydau ar ddydd Iau, 31 Hydref o glywed am ymadawiad Margaret Delyth Morris, Skelmersdale, yn yr un flwyddyn a'i efaill Joyce Lewington, Wavertree. Roedd y ddwy bob amser gyda'i gilydd ac ni ellid meddwl am un heb y llall. Ganwyd Delyth yn Llwyngwril ym Meirionnydd, ei thad yn blisman y cyffiniau, a'i mam weithgar, dduwiol Mrs Anwyl Williams. Roeddent yn deulu mawr, tair merch a dau fab. Collwyd Hefin, y mab, ag yntau ond yn ddeg mlwydd oed, a bu yn groes drom iddynt i'w gario. Sonia Megan, Delyth a Joyce yn aml am y brofedigaeth ac fel yr anfonwyd eu tad i ymofyn corff oedd wedi ei ddarganfod yn ymyl Bermo heb sylweddoli mae ei fab ei hun ydoedd.

Ar ôl dyddiau ysgol daeth y ddwy i Lerpwl yn ferched un ar bymtheg oed gyda'r bwriad o gael eu hyfforddi yn nyrsus. Dyna a ddigwyddodd. Trefnwyd yr hyfforddiant yn Ysbyty'r Plant Alder Hey ac ar ôl cwblhau'r cyfan cafodd y ddwy le fel gweinyddesau yn Ysbyty Fawr Newsham yn Belmont Road, dyddiau braf a dyddiau a olygai oriau hir gyda'i gwaith. Ac yn ystod y blynyddoedd dedwydd hyn y cyfarfu y ddwy ohonynt a dau fachgen a ddaeth yn wŷr iddynt.

Mae hi'n stori dda a nodweddiadol o'r cyfnod. Roedd y ddwy wedi mynd gyda'i gilydd i'r sinema fel ag yr oedd Fred Lewington a'i gyfaill Clifford Morris. Eisteddai'r ddau y tu ôl i'r efeilliaid. Yn ystod yr egwyl dyma sgwrsio a chyneuwyd fflam cariad. Gofynnodd y ddau am y fraint o'u hebrwng hwy yn ôl i hostel y nyrsus, ac o'r foment honno y blagurodd y berthynas. Priodwyd hwy a ganwyd i Delyth a Clifford ddau fab Colin a David a fu yn gymaint o gefn a chymorth i'w rhieni yn nyddiau ei salwch, hwy a'i gwragedd, y ddwy ohonynt a'r un enw, Ann. Setlwyd yn Skelmersdale lle y daeth i'w hadnabod fel Margaret ac i ni'r Cymry Delyth ydoedd.

Pan symudodd ei mam i fyw i Pagefield Road, cefais y fraint o'i chroesawu a'i derbyn yn aelod ynghyd a'i dwy ferch a dyna ddechrau yn y saith degau a'r berthynas agos a fu rhyngom fel Gweinidog a chynulleidfa Capel Bethel, Heathfield Road. Roedd Joyce a Delyth wedi ei bendithio gyda lleisiau godidog ac mi fyddai'r ddwy wrth eu bodd yn oedfa Nos Sul.

Byddai Delyth yn gyrru o Skelmersdale i dŷ Joyce yn y pnawn a'r ddwy yn dod gyda'i gilydd ar Nos Sul. Rhoddwyd llawer o gyfrioldebau ar Joyce gyda pharatoi bwyd ar gyfer gwahanol amgylchiadau, yn arbennig pan fyddai cyfeillion o Gymru yn ymweld â ni. Bob tro byddai Delyth yn y tîm a fyddai'n paratoi'r bwyd. Dyddiau braf oedd y rhain cyn i'r dyddiau blin ddod yn ei hanes. Cafodd y Parchedig Robert Parry a minnau sesiwn gyda hi yn ei chartref yn yr haf ac yr oedd hi yn falch o'n gweld ac yn groeso i gyd. Meddai ar bersonoliaeth garedig, balchter yn ei ymddangosiad, a llawenydd o gael bod yn eich cwmni.

Y mae llun godidog ohoni yn y gyfrol *Codi Stêm a Hwyl yn Lerpwl* ar dudalen 166 a'i gwên, wedi ymlacio yn llwyr. Daeth cynulleidfa dda ynghyd i Amlosgfa Burscough ar bnawn Mercher, 13 Tachwedd a gwasanaethwyd gan yr eiddoch yn gywir yn cael ei gefnogi gan ei gynorthwy-ydd bugeiliol, y Parchedig Robert Parry.

***D. Ben Rees***

CYMRAEG

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

Rhifyn Chwefror heb y clawr.qxp_Layout 1 16/01/2020 13:26 Page 14

# CADAIR LERPWL YN COED-LLAI

### *gan Dafydd Meirion, Wyddgrug*

Gwn y byddwch fel Golygydd yn falch o'r ddau lun a amgaeaf atoch ar gyfer tudalennau *Yr Angor*. Mae gennyf ffrind ym mhentref Coed-llai sydd yn meddu ar Gadair sydd yn gysylltiedig â dinas fy mebyd, Lerpwl.



Sylwaf i'r Gadair gael ei chyflwyno yn 1891 a bod y geiriau Llynlleifiad wedi ei gerfio yn hytrach na Lerpwl. Gwyddoch fod rhai o'r beirdd yn ffafrio yr enw hwnnw yn hytrach na'r enw a ddefnyddiwn ni heddiw. Amgaeaf hefyd lun y beirniad *Cadvan* ac fel y dywedasoch dros y ffôn Gweinidog Wesleyaidd ydoedd, un a fu yn Archdderwydd, ac a fu hefyd yn weinidog yn Lerpwl. Tybed a oes un o ddarllenwyr *Yr Angor* yn gwybod pa Eisteddfod a gynrychiolir gan y Gadair sydd yn cyhoeddi i'r byd angen mawr ein dyddiau Ffydd, Gobaith a Chariad.



***Y beirniad Cadvan***



***Aled Jones yn derbyn anrheg yn Noson Carolau Undeb Gorawl Cymry Lerpwl***

***Oherwydd diffyg gofod yn y rhifyn yma bydd erthyglau***

***'Ymweliad â Rochdale' gan Elwyn Evans a hefyd 'Gair am Garston yn Nyddiau Adam' yn cael eu cyhoeddi yn y rhifyn nesaf.***

Rhifyn Chwefror heb y clawr.qxp_Layout 1 16/01/2020 13:26 Page 15

# ATYNIAD Y BALA A'R CYFFINIAU

Yn aml iawn, mae ambell un yn gofyn i mi – Gawsoch chi hwyl yn Y Bala dros y penwythnos? Ambell waith does na ddim llawer i'w ddweud ond ran amlaf mae yna fwrlwm o gwmpas y dref. Ac felly yr oedd hi y tro hwn.

Wedi noson hyfryd o flaen tân braf (er i ni golli mynd i wylio gêm fawr Lerpwl yn erbyn Spurs a'r holl goliau) fel arfer rydym yng nghanol ffrindiau yn y Plas Coch yn gwylo'r gêm.


Noson i ddarllen *Y Cyfno*d (papur bro Y Bala a Corwen) yn cael ei alw yn 'Corwen Times' yn ardal Corwen. Edrych ar y Calendr i weld beth sy' 'mlaen dros y penwythnos a'r wythnosau sydd i'w ddod yn y gwahanol ardaloedd o gwmpas Bala. Hefyd y misolyn 'Pethe Penllyn' hefo teyrngedau i ddau o fawrion ardal y Parc a'r genedl rwy'n siwr. Y wyrion yn rhoi hanes taid – sef Dan Puw a Rhian Dafydd, Ceredig Puw ac Enlli Llwyd Davies yn cofio Anti Mair (Mair Penri).

Bore wedyn cychwyn i Llandudno i ymweld â ffrind mawr i mi o Ddolgarrog sydd mewn cartref ac yn 94 oed. Deil yn ifanc ei meddwl, a chawsom sgwrs ddifyr am yr hen amser.

Ymlaen wedyn i ganol y dref i gael paned – a phwy oedd yn y 'ciw' o fy mlaen ond Enid (gwraig Iwan Bryn Williams, cyn brifathro Ysgol y Berwyn) a mam yng nghyfraith Billy Thompson ddoth i'n diddori efo'i ffidil yn y Gymdeithas Gymraeg yn noson agoriadol eleni. Hithau yn aros yn y dref dros y penwythnos i fynd i wrando ar Gwmni Opera Cymru yn perfformio. Sgwrs dros baned a chacen! Siwrne hyfryd yn ôl i'r Bala – Dyffryn Conwy yn hynod o hardd.

*Afon Gonwy'n llifo'n felyn*
*Aeth a coed y maes i'w chanlyn.*

Trannoeth – cyfarfod Hywel Davies (Y Twrne), tad Sian Melangell efo'i ŵyr



***Y Bala a Phenllyn – ardal llawn bwrlwm o weithgareddau***

bach denuaw mis. Hywel eisiau gair efo Roderick ynglŷn â darlith yn Cantref y flwyddyn nesaf.

Yna i Lanuwchllyn, Tafarn yr Eryrod gyda'r nos i lansiad nofel Haf Llewelyn (gwraig Siôn y Fferyllydd). Mam Siôn – Kathy yn ffrind mawr i Mair (gwraig David John Williams). Criw o'r pentref wedi trefnu cael pryd cyn y dathliad. Gwyn Siôn Ifan (Awen Meirion) yn cyflwyno'r noson a'r awdures Mari Williams yn holi Haf – heb ddatgelu gormod o'r stori. Eleri Llwyd yn gorffen y noson efo tair cân i gyfeiliant ei gitâr a caws a gwin i bawb i gwblhau'r noson.

Bore Sadwrn gwylio'r rygbi – Lloegr yn erbyn De Affrica – yna'n syth i'r Badell Aur am baned a sgwrs. Y drws yn agor yn sydyn a Dr. Huw Rees yn sefyll yno. Wedi aros yn Y Bala ar ei ffordd o Boncath i Lerpwl ac yn falch o ymuno â ni a chael sgwrs hefo'r criw oedd yn hapus i'w holi am ei gysylltiadau â Lerpwl a'r Undeb Gorawl Gymraeg oedd yn cynnal noson o adloniant i godi arian at y côr.

Dydd Sul yn ddiwrnod hynod o braf a'r haul drwy'r dydd. Llawer o drigolion y dref yn cael cinio Dydd Sul naill ai yn y Llew Gwyn, Y Plas Coch, Y Cyfnod, Sosban Fach neu Plas yn Dre. Y diwethaf oedd ein dewis ni – ar wahân i'r disgwyl roedd y pryd yn flasus iawn gyda cig eidion ac anferth o bwdin Efrog yn cuddio popeth ar y plât.

Cyfarfod Elfyn Pritchard ar y ffordd i Gapel Tegid – wedi dod yn arbennig i wrando ar y Parch. Robert Parry (ein gweinidog cynorthywol). Cawsom bregeth ysbrydoledig a phawb yn canmol. Roedd y gwasanaeth yn y festri a tua deunaw o addolwyr yn bresennol.

Brysio adref am baned sydyn cyn cychwyn i'r cyngerdd. Rhys Meirion yn dathlu deugain mlyndd. Dilwyn Morgan yn arwain gyda'i hiwmor arferol a Côr Cymysg Dyfi yn cychwyn y noson – lleisiau arbennig gyda Arfon Williams yn eu harwain. Rhys yn cyflwyno nifer o unawdau amrywiol a'i ferch Elan sydd yn y Coleg Cerdd yn Llundain hefyd yn canu unawdau ac yn ymuno â'i thad mewn deuawdau. Cafwyd eitemau hyfryd gan y Côr Ieuenctid o dan arweiniad Nia Morgan a phedwarawd a deuawd o'r côr yn canu penillion. Dr. Graham Thomas (meddyg yn arbenigo ar y galon) yn egluro bod elw y noson yn mynd i Lesotho at waith yr ysbyty yno.

Anodd ambell waith yw meddwl troi ein cyfeiriad tua Lerpwl, a gohirio cychwyn tan y pnawn. Mor brydferth oedd y daith a'r coed yn gopr ac aur ond doedd unman yn dlysach wedi'r cwbl na chyrraedd ffordd Springwood a'r coed ffawydd yn eu gogoniant.

***Norma Lloyd Owen***




***Y Badell Aur – man cyfarfod ffrindiau a Chymry'r ardal***

# *Mwynhau'r Nadolig yn Nhalgyrch Yr Angor*

*(Lluniau: John G. Williams)*



*Eryl Jones gyda'i ferch Sue a'i gŵr George yn Oedfa Bethel*



*Cinio Nadolig Cymry Lerpwl yn Woolton*



*Myfyrwyr yr Angor – Jackie, Holly a Dyfan*
*(Inset: Dyfan wedi ennill potel o win yn y raffl)*



*'Maria' yn canu'r Plygain ar 15/12/2019*



*Alun Davies wedi ennill gwobr yn y raffl*



*Gareth a Harri Roberts, Eryl Wyn Jones a bocs o 'Quality Streets' Sion Corn ar fore'r Nadolig*